## Y Grŵp Trawsbleidiol ar Atal Hunanladdiad – noddwyd gan Jayne Bryant AS

Dydd Mercher 19 Ionawr 2022
12pm – 1.25pm
Drwy Zoom

**Cofnodion**

**Y rhai a oedd yn bresennol:** Altaf Hussain AS (Senedd Cymru), Alun Fletcher (Mental Health Matters Cymru), Amy Bainton (Barnardo's Cymru), Ana Laing (Y Samariaid), Ana Reis-Rogers (Byw yng Nghysgod Hunanladdiad), Andrea Prevett, Angharad Metcalfe (Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru), Belinda Jones (Cydweithfa Iechyd Meddwl GIG Cymru), Bernie Ford (Y Samariaid), Brody Anderson (Senedd Cymru), Caryl Stock (Byddin yr Eglwys), Ceri Fowler (Cydweithfa Iechyd Meddwl GIG Cymru), Dan Rose (Senedd Cymru), David Patel (Cydweithfa Iechyd Meddwl GIG Cymru), David Richards (Heddlu Gwent), Dr Dave Williams (Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan), Dr Liz Davies (Llywodraeth Cymru), Eleri Cubbage (Senedd Cymru), Emma Gooding (Y Samariaid), Emma Kneebone (2 Wish), Eric Thwaites (SOBS), Faith Reynolds (Heddlu Gwent), Glenn Page (Mind Cymru), Helen Bennett (Heddlu De Cymru), Jackie Williams (Iechyd Cyhoeddus Cymru), Jamie Kaijaks (Llywodraeth Cymru), Janet Whiteman (Iechyd Meddwl New Horizons), Janette Bourne (Cymorth mewn Profedigaeth Cruse Cymru), Jayne Bell (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro), Jayne Bryant AS (Senedd Cymru), Jules Twells (Y Samariaid), Kate Heneghan (Papyrus), Kerina Hanson (NAHT Cymru), Laura Frayne (Y Samariaid), Laura Tranter (Cydweithfa Iechyd Meddwl GIG Cymru), Lesley Rose (SOBS), Liza Evans (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda), Lynda Ormerod (yr Adran Gwaith a Phensiynau), Lynne Neagle AS (Llywodraeth Cymru), Madelaine Phillips (Conffederasiwn GIG Cymru), Maggy Corkhill (T4HM Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg/ Cynghrair Cyd-alc), Hannah Denman (Sefydliad Jacob Abraham), Matt Downtown (Llywodraeth Cymru), Meryl James (Y Samariaid), Natalie Jones (Mental Health Matters Cymru), Olga Sullivan (Y Samariaid), Peter Thomas MBE (Heddlu De Cymru), Phil Sparrow (Heddlu De Cymru), Philippa Watkins (Senedd Cymru), Yr Athro Ann John (Prifysgol Abertawe, Rahila Hamid (Canolfan Ddiwylliannol Casnewydd), Rhun Ap Iorwerth AS (Senedd Cymru), Robert Visintainer (Hafan Cymru), Sarah Stone (Y Samariaid), Sian Bamford (Heddlu Dyfed Powys), Sophie Chance (Heddlu Gogledd Cymru), Steve Siddall (RNLI), Suzanne Duval (Diverse Cymru), Willow C Holloway (Autistic UK).

**Ymddiheuriadau:** Peredur Owen Griffiths AS, Llyr Gruffydd AS, Gareth Davies (Tir Dewi), Nikki Jones (Sefydliad Manon Jones), Nick Webb (Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu), Liz Williams (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion), Sian Thomas (Senedd Cymru).

**12pm: Croeso a chyflwyniadau**

Diolchodd Jayne Bryant AS i bawb am fod yn bresennol, a chyflwynodd Lynne Neagle AS y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, a'r Athro Ann John a fydd yn trafod eu gwaith yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

**12:05pm: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol ac nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**12:10pm: Lynne Neagle MS, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.**

Eglurodd Jayne fod Lynne yn bresennol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith presennol Llywodraeth Cymru ar atal hunanladdiad. Esboniodd Lynne fod atal hunanladdiad yn flaenoriaeth bersonol iddi, yn enwedig hunanladdiadau ymhlith pobl ifanc, a bod hwn yn un sbardun i'w gwaith yn y Senedd, ac mae'n falch o gael cyfle i fod yn y Llywodraeth i geisio sicrhau newid yn y maes hwn. Ychwanegodd Lynne ei bod am nodi dau fater penodol a godwyd yng nghyfarfod diwethaf y Grŵp Trawsbleidiol. Yn gyntaf, bod angen canolbwyntio ar Blant a Phobl Ifanc, y mae hi'n ei gefnogi. Mae angen canolbwyntio ar atal problemau iechyd meddwl a lles emosiynol a'u gwella, ac mae hyn yn

bwysig iddi yn ei rôl. Credai Lynne fod y gwaith hwn yn gyfle i atal hunanladdiadau oedolion yn y dyfodol drwy ymyrraeth gynnar. Dywedodd ei bod am sicrhau'r Grŵp ei bod yn bwysig iawn bwrw ymlaen ag argymhellion adroddiad Cadernid Meddwl y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, ac argymhellion adroddiad Busnes Pawb y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y Senedd flaenorol, a'i bod hi'n gwbl ymrwymedig i wneud yr hyn y gall yn y Llywodraeth i weithredu argymhellion yr adroddiadau hyn.

Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau buddsoddiad ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl, a bod £50 miliwn ychwanegol ar gael yn y flwyddyn sydd i ddod, yna £75 miliwn a £90 miliwn ar gael yn y ddwy flynedd nesaf. Mae hyn yn adlewyrchu trafodaethau y mae hi wedi'u cael yn y Llywodraeth am atal hunanladdiad fel busnes i bawb. Bydd y cyllid ychwanegol yn cael ei ddefnyddio'n benodol ar gyfer gwaith atal hunanladdiad yng Nghymru, a bydd cyhoeddiad yn hyn o beth maes o law. Ychwanegodd Lynne y bydd ffocws hefyd ar ddata amser real ar hunanladdiad, gan fod hyn yn hanfodol i sicrhau bod cymorth yn cael ei roi ar waith yn gyflym i'r rhai yr effeithir arnynt gan hunanladdiad, gyda'r bwriad o sicrhau llwybr ôl-ymyrraeth gwirioneddol i Gymru.

Mae Lynne yn parhau i weithio gyda'r Athro Ann John, a Claire Cotter, y Cydlynydd Cenedlaethol ar gyfer Hunanladdiad a Hunan-niwed, i geisio cryfhau'r gwaith hwn a hefyd i ystyried sefydlu corff trawslywodraethol cenedlaethol i weithio yn y maes. Esboniodd Lynne ei bod am i bob rhan o'r llywodraeth weithio ar sail yr agenda hwn. Mae gwerthusiad o Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a Siarad â Fi Hefyd wedi'i gomisiynu, a bydd hwn hefyd yn llywio gwaith yn y dyfodol. Mae Lynne yn awyddus iawn i gael strategaeth atal hunanladdiad gref ar wahân ar waith yng Nghymru, er mwyn sicrhau y gwelir canlyniadau.

Ychwanegodd Lynne sut mae gwaith iechyd meddwl ehangach hefyd yn cyfrannu at atal hunanladdiad, a gofal mewn argyfwng. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud i adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer hyn ym mhob bwrdd iechyd. Mae cynlluniau i sefydlu gwasanaeth un pwynt cyswllt 111 ledled Cymru erbyn dechrau mis Ebrill a fydd â system gyfeirio ar waith. Esboniodd Lynne fod Claire Cotter yn datblygu canllawiau ar brofedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad a'i bod wedi gweithio gyda rhanddeiliaid amrywiol yn hyn o beth. Mae Lynne eisiau sicrhau bod cymorth ar unwaith ar gael i'r rhai sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad, ac yna cefnogaeth barhaus. Mae gwaith yn cael ei wneud i arwain ar fframwaith profedigaeth cenedlaethol, ac mae Lynne wedi tynnu sylw at y modd y mae'n teimlo bod cymorth hunanladdiad a chymorth ôl-ymyrraeth yn flaenoriaeth yn y maes hwn.

Rhoddodd Suzanne Duval gwestiwn ym mlwch sgwrsio'r cyfarfod yn gofyn a oedd unrhyw gynrychiolwyr o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn rhan o'r Grŵp Trawsbleidiol hwn? Gofynnodd Suzanne hefyd am brofedigaeth, o ran Covid-19 a marwolaethau pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, a sut y gofynnwyd yn flaenorol am ethnigrwydd pobl a nodwyd ar dystysgrifau marwolaeth. Esboniodd Lynne fod gan Lywodraeth Cymru grŵp gorchwyl a gorffen sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl a'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr. O ran ethnigrwydd, mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar gynnwys hyn fel rhan o waith gwyliadwriaeth amser real, ond awgrymodd mai Ann John fyddai'r person gorau i wneud sylwadau arno. Ychwanegodd Emma Gooding fod y Samariaid wedi gweithio gyda'r elusen Cyfeillion, Teuluoedd a Theithwyr ac mae hyn yn rhywbeth y gellid ei drafod ymhellach gyda nhw.

Ychwanegodd Sarah Stone ei bod yn braf clywed ymrwymiadau Lynne Neagle AS i atal hunanladdiad, a gofynnodd am amserlen ar gyfer gwaith yn y dyfodol a ffurf y gwaith hwnnw. Cytunodd Lynne ar rôl hanfodol data amser real a bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol, er na fu unrhyw gynnydd mewn hunanladdiadau, bod yn rhaid i ni aros yn wyliadwrus yn enwedig o ystyried y cysylltiadau rhwng hunanladdiad ac anghydraddoldeb a'r ansicrwydd ynghylch bywyd ar ôl y pandemig. Esboniodd Lynne y bydd y grŵp trawslywodraethol yn cael ei gyfarfod cychwynnol ym mis Chwefror a'u bod yn dal i weithio ar y manylion, ond mae hi wedi gofyn iddo gael ei symud ymlaen yn gyflym, a bydd ganddi hi rôl allweddol ynddo hefyd, a gall roi diweddariad pellach maes o law.

Dywedodd Rahila Hamid bod Mind Casnewydd wedi colli cyllid ar gyfer eu gwasanaeth lleiafrifoedd ethnig yn 2016. Soniodd Rahila am hunanladdiad mewn cymunedau ethnig a sut y gall crefydd a stigma effeithio ar unigolion. Roedd hi hefyd yn bryderus am bobl ifanc a darparu offer i weithleoedd

ar gyfer helpu i gefnogi pobl mewn trallod. Dywedodd Lynne nad oedd yn ymwybodol bod Mind Casnewydd yn colli cyllid ar gyfer gwaith gyda grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ond bydd hi'n siarad â swyddogion, ond mae Llywodraeth Cymru yn gwybod bod angen iddynt wneud llawer yn rhagor er mwyn i wasanaethau gyrraedd grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn well. Ychwanegodd Lynne, pan fydd Llywodraeth Cymru yn dyfarnu cyllid, mae am i sefydliadau sicrhau eu bod yn cyrraedd grwpiau amrywiol ac y gellir gwneud gwaith i atal hunanladdiadau rhag digwydd, gan ei fod yn gymhleth, ond nid yw hunanladdiad rhywbeth sy'n ganlyniad anochel.

Eglurodd yr Athro Ann John fod ffigurau diweddar y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod y rhai â chefndir ethnig cymysg mewn perygl o hunanladdiad. Mae cofnodi ethnigrwydd ar dystysgrifau marwolaeth yn gam ymlaen, ond nododd Ann fod cofnodi mewn ardaloedd eraill eisoes yn wael. Nid yw cofnodi galwedigaethau ar dystysgrifau marwolaeth yn dda, ac nid oedd Ann yn meddwl y byddai'n darparu ateb, ond byddai'n beth cadarnhaol i Gymru gynnwys gwybodaeth tystysgrifau marwolaeth fel rhan o'r gwaith gwyliadwriaeth amser real. Diolchodd Janette Bourne i Lynne am sbarduno gwaith yn y maes hwn, ac eglurodd fod Cruse yn cefnogi 500 o bobl sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad bob blwyddyn, ond dim ond crafu'r wyneb yw hyn o ran y cymorth sydd ei angen, pan ystyriwch yr ystadegau hunanladdiad. Awgrymodd Janette y dylid cyflwyno mater tystysgrifau marwolaeth i'r Grŵp Trawsbleidiol ar ofal angladdau i'w drafod ymhellach.

Roedd Glenn Page yn meddwl bod anghydraddoldeb yn ffocws da, a dywedodd fod y Samariaid wedi gwneud gwaith gwych yn y maes hwn. Mae materion anghydraddoldeb enfawr sy'n gysylltiedig â hunanladdiad, ac mae rhai grwpiau mewn mwy o berygl o lawer, gan gynnwys grwpiau ethnigrwydd, a byddai'n fuddiol edrych ymhellach ar wybodaeth tystysgrifau marwolaeth, ond mae angen defnyddio ffocws i edrych tuag at y gorffennol i ganfod a oedd yr unigolion hynny wedi gallu ymestyn at gefnogaeth. Ychwanegodd Glenn y byddai'r gyfres ddata graidd o ran iechyd meddwl yn helpu i gasglu'r data hyn, a gofynnodd sut y gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r data hyn yn y dyfodol i ddeall pam fod pobl sy'n cael cymorth neu bobl sy'n methu â chael cymorth, nid yn unig o ran ethnigrwydd ond o ran ardaloedd cymdeithasol-economaidd difreintiedig hefyd. Yn flaenorol, anfonodd Mind a Chynghrair Iechyd Meddwl Cymru (WAMH) gynnig i Lywodraeth Cymru ar sut y gellir defnyddio'r gyfres ddata graidd, a byddent yn gwerthfawrogi barn Lynne ar hyn a defnyddio'r data yn y dyfodol.

Esboniodd Lynne fod y gyfres ddata graidd wedi'i dosbarthu ar ffurf drafft i'r byrddau iechyd, er mwyn iddynt ddeall yr hyn sy'n cael ei gofnodi ar hyn o bryd. Bu rhywfaint o oedi i wneud cynnydd gyda'r gwaith hwn oherwydd Covid-19. Eglurodd, ochr yn ochr â hyn, fod Prifysgol De Cymru wedi'i chomisiynu i ddatblygu mesurau canlyniadau ar gyfer gwasanaethau, a bydd y gwaith mapio cychwynnol yn cael ei wneud erbyn mis Ebrill. Ychwanegodd Lynne sut y mae hi'n awyddus, nid yn unig i ganolbwyntio ar amseroedd aros, ond ar yr hyn y mae pobl yn ei gael o'r gwasanaethau o ran canlyniadau. Esboniodd Matt Downtown mai lleiafswm y data a gesglir ar hyn o bryd yw tua 300 o feysydd. Mae rhai adrannau eisoes wedi'u cryfhau mewn llawer o feysydd, gan gynnwys ethnigrwydd ac maent yn cael eu defnyddio gan wahanol grwpiau. Pan mae cyfleoedd i wneud pethau ochr yn ochr, a'u gwneud yn gyflymach, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud hynny.

**12:30pm: Yr Athro Ann John, Athro Clinigol Iechyd y Cyhoedd a Seiciatreg, Prifysgol Abertawe ac arweinydd cenedlaethol ar gyfer atal hunanladdiad a hunan-niweidio, Iechyd Cyhoeddus Cymru**
Siaradodd Ann am ei sleidiau, sy'n cynnwys edrych ar ystadegau hunanladdiad a hunan-niweidio yn ystod y pandemig o bob cwr o'r byd. Esboniodd Ann sut mae tueddiadau sylfaenol o ran y data, a gwyddom fod hunanladdiad ymhlith pobl ifanc wedi cynyddu yn y blynyddoedd presennol. Roedd y gwaith ymchwil yn cymharu data o 2019, ac o gwmpas y byd ym misoedd cynnar y pandemig, ac roedd yn dangos nad oedd dim cynnydd o ran hunanladdiadau. Ychwanegodd Ann, yn dilyn hyn fod bwletin wedi'i gyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a oedd yn edrych ar fis Ebrill tan fis Gorffennaf 2020, sef data a ddangosodd ostyngiad sylweddol mewn hunanladdiad ymhlith dynion o gymharu â 2019, ac roedd y gostyngiad hwnnw yn gyrru'r gostyngiad cyffredinol a ddangoswyd. Mewn menywod, mae cyfraddau hunanladdiad wedi aros yn sefydlog. Eglurodd Ann sut y gallai cyflogaeth ansicr i fenywod, a hwythau'n aml yn y rôl prif ofalwr, ac yn gyfrifol am addysgu gartref ac ati fod wedi effeithio ar hyn. Ar draws grwpiau oedran roedd y data yn dangos cynnydd sylweddol mewn hunanladdiadau pobl ifanc rhwng 25 a 44 mlwydd oed.

Eglurodd Ann mai'r broblem gyda cheisio ymateb o ran data hunanladdiad yw oedi o ran cofrestru bob tro. Mae cofnodion y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn adlewyrchu pryd y caiff marwolaeth ei chofrestru, ac ni all hyn ddigwydd nes bod cwestau'n cael eu cynnal, ac mae'r rhain yn aml yn cael eu gohirio, weithiau am amser hir. Gwnaed yr oedi a oedd yn bodoli yn hwy oherwydd Covid-19. Ychwanegodd Ann ei bod yn amlwg o ran cofrestru ar gyfer 2020 a 6 mis cyntaf 2021 ei bod yn amlwg bod yr oedi yn hwy yng Nghymru nag yn Lloegr. Bydd y gwaith sy'n cael ei wneud ar ddata amser real yn helpu rhywfaint gyda'r mater hwn, a bydd yn golygu y bydd data ar gael yn gynt a bydd modd nodi patrymau a thueddiadau yn gynharach. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i gymorth ôl-ymyrraeth gael ei ddarparu i bobl yn gynt.

Cyfeiriodd Ann at ei sleidiau a'r rhesymau posibl pam nad yw cyfraddau hunanladdiad wedi codi. Roedd y rhain yn cynnwys mwy o gydlyniant cymdeithasol, ac roedd llawer yn cael cymorth gan ffrindiau a theulu, a mesurau diogelu economaidd a oedd ar waith ynghyd â chymorth gan wasanaethau ac elusennau. Mae pryder am effaith Covid-19 yn y dyfodol o ran yr effaith economaidd, ac o ran staff, a gwasanaethau yn cael eu gorymestyn ac ati.

Ychwanegodd Ann y gall banc data SAIL gysylltu ar draws y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol ac edrych ar gysylltiadau ar draws y gwasanaethau. Mae data o ran hunan-niweidio wedi cael ei adolygu gan dîm Ann yn yr astudiaeth Covid-19 ar gyfer Cymru a ganfu ostyngiadau mawr ar draws y don gyntaf a'r ail don o'r pandemig o gymharu â data ar gyfer 2016 a 2019. Teimlir bod llawer o hynny oherwydd negeseuon am amddiffyn y GIG a phobl yn peidio â chysylltu â gwasanaethau. Un mater allweddol yw, os nad yw pobl yn cysylltu â gwasanaethau, nid ydynt yn cael asesiadau nac yn cael gofal dilynol. Esboniodd Ann nad yw'n glir a yw'r ystadegau hyn yn adlewyrchu sut roedd pobl yn teimlo'n feddyliol, neu a ydynt yn dangos sut yn union yr oeddent yn teimlo am gael mynediad at ofal yn ystod y cyfnod hwn. Oherwydd y lleihad yn y niferoedd sy'n cysylltu â gwasanaethau penodol ar draws pob salwch, roedd cyfran y bobl a oedd yn cysylltu â hunan-niwed yn uwch nag y mae fel arfer (e.e. mewn adrannau brys). Effeithiwyd yn anghymesur ar gysylltiadau hunan-niwed mewn gofal sylfaenol o gymharu â mathau eraill o gysylltiadau nad oeddent yn ymwneud â hunan-niweidio.

Ychwanegodd Ann fod cynnydd o ran y rhai a ddaeth i'r amlwg a oedd wedi defnyddio dulliau mwy angheuol o hunan-niweidio, ond gostyngiad yn nifer y bobl a oedd yn yr ysbyty, ac mae angen inni ystyried a oedd hyn oherwydd risgiau yn ymwneud â Covid. Mae merched ifanc yn fwy tebygol o gael eu gweld yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys ac mae ambell batrwm gwirioneddol wedi dod i'r amlwg, ond nid yw'n glir beth yw ystyr hynny ar gyfer data yn y dyfodol. Eglurodd Ann fod cyfres ddata arall yn SAIL yn edrych ar absenoldebau ysgol a hunan-niwed. Mae llawer o achosion o ymddygiad hunan-niweidio yn codi pan fydd pobl yn eu harddegau. Bu cyfradd gynyddol o hunan-niweidio ymhlith pobl ifanc cyn y pandemig ond ar gyfer materion iechyd meddwl fel gorbryder ac iselder ar draws grwpiau oedran nid yw pethau wedi dychwelyd ar lefel poblogaeth ar lefel debyg i'r hyn oedd cyn y pandemig.

Ychwanegodd Ann fod problemau o ran presenoldeb yn yr ysgol yn aml yn gysylltiedig ag amrywiaeth o ganlyniadau gwael yn ddiweddarach mewn bywyd. Gall Llwyfan Data Iechyd Meddwl y Glasoed yng nghronfa ddata SAIL gysylltu cyfres ddata addysgol gyfan gan Lywodraeth Cymru, sy'n caniatáu ar gyfer astudiaethau mawr. I rai pobl ifanc efallai na fydd eu hymddygiad hunan-niweidio yn cael ei gofnodi yn yr ysgol, dim ond yn ddiweddarach yn eu bywydau, felly roedd y data yn ystyried cofnodion hyd at 24 mlwydd oed. Eglurodd Ann fod pobl ifanc sy'n hunan-niweidio yn fwy tebygol o fod yn absennol o'r ysgol. Hefyd, os oes ganddynt anghenion addysgol arbennig mae'r tebygolrwydd o fod yn absennol yn lleihau. Mae pobl ifanc sy'n hunan-niweidio hefyd yn fwy tebygol o gael eu diarddel o'r ysgol.

Ychwanegodd Ann y gall dylanwad rhieni leihau wrth i bobl ifanc fynd yn hŷn ac felly mae cyfraddau absenoldeb uwch ymysg y glasoed hŷn ac mae'r data yn adlewyrchu lefelau diarddel bron 7 gwaith yn uwch na phobl ifanc nad ydynt yn hunan-niweidio neu sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae hyn yn cael effaith enfawr ar y llwybr ar gyfer y bobl ifanc hyn, ac mae'n rhywbeth y mae angen canolbwyntio arno. Bydd holl effeithiau presenoldeb yn yr ysgol, neu absenoldeb yn para'n hir i bobl ifanc. Mae'r data hefyd yn dangos bod bechgyn sy'n hunan-niweidio ddwywaith yn fwy tebygol o gael eu gwahardd o'r ysgol na merched.

Esboniodd Ann fod y data yn dangos, ni waeth pa broblem iechyd meddwl y caiff pobl ifanc ddiagnosis ohono, roedd effaith yn deillio ohono o ran presenoldeb a gwahardd, a bod hynny'n cynyddu gyda nifer y diagnosisau. Mae cysylltiad rhwng materion iechyd meddwl, absenoldeb o'r ysgol a gwahardd o'r ysgol. Ychwanegodd Ann sut mae ysgolion yn casglu data ar absenoldeb a gwaharddiadau fel mater o drefn ac y gellid eu defnyddio fel dangosydd ar gyfer iechyd meddwl gwael, er mwyn amlygu'r bobl ifanc y mae angen cymorth arnynt. Gwyddom o'r gwaith ar ddull ysgol gyfan fod iechyd meddwl a llesiant yn faes strategol pwysig, ac y gall ymyriadau wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Gwnaeth Ann sylw o ran sut mae'r data'n dangos yr hyn yr oeddem eisoes yn ei wybod, a'r meysydd pwysig y gellid canolbwyntio'r gwaith arnynt. Mae angen i ni barhau i fod yn wyliadwrus, a meddwl am yr hyn a fydd yn digwydd wrth i ni ddod allan o'r pandemig yn enwedig o ran anghydraddoldebau a'r pwysau y mae gwasanaethau yn parhau i'w ddioddef. Ychwanegodd Ann y bu cynnydd mewn meddyliau am hunan-niweidio a hunanladdiad, ond nid yw hyn wedi trosi'n hunanladdiadau gwirioneddol.

Diolchodd Jayne Bryant MS i Ann am ei chyflwyniad a phopeth y mae'n ei wneud ac yn bwrw ymlaen ag ef. Soniodd Jayne am sylw yn y blwch sgwrsio gan Phillipa Watkins a gyfeiriodd at ymchwiliad i anghydraddoldebau iechyd meddwl a lansiwyd gan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd yn ddiweddar. Rhannodd Philippa fanylion am sut y gall pobl gyfrannu at yr ymgynghoriad, ac ychwanegodd Jayne sut mae Rhun Ap Iorweth AS ac Altaf Hussain AS yn y cyfarfod heddiw ac yn rhan o'r Pwyllgor sy'n gwneud y gwaith hwn.

Eglurodd Natalie Jones ei bod yn gweithio i Mental Health Matters Cymru, yn ardal Cwm Taf, ac roedd am dynnu sylw at y ffaith y bu cynnydd sylweddol yn ystod y chwarter diwethaf yn nifer y bobl sy'n dod atynt. Hefyd, ar draws ardal Cwm Taf mae pobl yn cael profiad gwahanol o gael mynediad at wasanaethau, yn dibynnu ar ble maent yn byw yn y bwrdd iechyd. Siaradodd Natalie sut mae hi'n ymwybodol o bobl yn Rhondda Cynon Taf nad ydyn nhw wedi gallu cael mynediad at wasanaethau oedolion cyn 18 oed, ond mae eraill wedi gallu cael mynediad ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd Ann sut mae hyn yn amlygu materion yn ymwneud â phontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, a sut roedd y rhain yn broblemau cyn Covid-19 sy'n cael eu cyflwyno eto. Ychwanegodd Ann sut y gall rhieni a stigma yn aml fod yn rhwystr rhag ceisio cymorth i bobl ifanc, a sut mae angen trefnu gwasanaethau o amgylch pobl ifanc a mannau lle gallant gyrraedd cymorth.

Eglurodd Lynne Neagle AS ei bod yn cydnabod yr hyn sy'n cael ei ddweud, a bod angen i wasanaethau gael eu 'lapio' o amgylch y person ifanc, ac mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn ceisio ei newid yng Nghymru gyda fframwaith NYTH. Ychwanegodd y modd y mae hi eisiau gwneud yn siŵr nad oes drws anghywir yn cael ei agor gan bobl ifanc, ac y dylai pawb gydweithio o amgylch y person ifanc. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn treialu prosiectau noddfa i bobl ifanc, ac yn rhoi cynnig ar wahanol brosiectau peilot. Maent yn cydnabod efallai na fydd yr hyn a all weithio i rywun mewn un rhan o Gymru yn gweithio i rywun mewn rhan arall o Gymru. Ychwanegodd Natalie Jones sut mae materion o fewn yr un bwrdd iechyd yn gwneud yr anghydraddoldebau yn fwy amlwg ac y dylai pobl allu cael mynediad at yr un lefel o wasanaeth yn yr un bwrdd iechyd. Cytunodd Lynne na ddylai hyn fod yn digwydd, a dywedodd y bydd y gwasanaeth 111 newydd yn cynnig cymorth cyson ledled Cymru.

Gofynnodd Maggy Corkhill a oedd gan Lynne unrhyw gynlluniau i brofi 'canol coll' o ran pobl ifanc niwroamrywiol. Eglurodd sut y gall niwroamrywiaeth heb ei ddiagnosio weithiau ddatblygu i fod yn broblemau mwy yn nes ymlaen, ac efallai y gallai ffocws ar hyn helpu gyda gwaith ataliol. Soniodd Maggy hefyd fod angen profion mwy cynhwysfawr ar gyfer niwroamrywiaeth. Esboniodd Lynne nad yw'n gyfrifol am niwroamrywiaeth a bod Julie Morgan AS bellach yn gyfrifol am bob maes, ond mae gorgyffwrdd pendant ag iechyd meddwl. Mae fframwaith NYTH yn edrych ar y maes hwn, ac mae Julie Morgan AS yn gwneud rhagor o waith yn y maes. Esboniodd Maggy ei bod yn teimlo bod cyfleoedd wedi'u colli i gefnogi pobl ifanc yn well, a'i bod yn ymwybodol o dystiolaeth o risg, ac o ymddygiad cymryd risg cynyddol yn y bobl sy'n niwroamrywiol.

Esboniodd Lynne y byddai'n adrodd yn ôl ar y drafodaeth hon wrth Julie Morgan AS a'u bod yn gweithio'n agos ar hyn a sut i roi fframwaith NYTH ar waith, a'i bod yn gobeithio y bydd hyn yn datrys y mater hwn, ac y caiff cymorth di-dor ei ddarparu i bobl ifanc. Diolchodd Jayne i Lynne ac Anne am ddod i'r cyfarfod.

### 12:50pm: Cwestiynau a'r camau nesaf

Bu'n rhaid i Jayne adael y cyfarfod yn gynnar felly trosglwyddodd yr awenau i Sarah Stone i gadeirio gweddill y cyfarfod, ac esboniodd y byddai'n cael diweddariad gan Sarah ar ôl y cyfarfod.

### 1.15pm: Pwnc ar gyfer y cyfarfod nesaf a chloi'r cyfarfod

Gofynnodd Sarah Stone i'r grŵp gyfrannu syniadau ar gyfer y cyfarfod nesaf, y bydd hi'n eu rhoi i Jayne ynghyd ag unrhyw gamau gweithredu dilynol. Awgrymodd Glenn Page mai un cam gweithredu posibl oedd bod Jayne yn ysgrifennu llythyr yn gofyn i'r Gweinidog am y wybodaeth ddiweddaraf o ran argymhellion yr adroddiad Busnes Pawb, a'r hyn sydd angen ei gyflawni o hyd. Gallai hwn hefyd fod yn bwnc ar gyfer ein cyfarfod nesaf.

**Camau i'w cymryd: Sarah Stone i drafod camau gweithredu ac awgrymiadau o'r cyfarfod heddiw gyda Jayne Bryant AS.**

Awgrymodd Ann John y gallai cyfarfod yn y dyfodol ganolbwyntio ar ethnigrwydd a grwpiau difreintiedig, a sesiwn arall ar anghydraddoldebau ac amddifadedd. Awgrymodd Rahila Hamid bwnc, sef edrych ar sut mae'r heddlu'n ymdrin â phobl ifanc sy'n dioddef problemau iechyd meddwl, a sut efallai y gallai cynrychiolydd o'r heddlu roi cyflwyniad i'r Grŵp ynglŷn â sut maent yn cefnogi pobl mewn argyfwng.

Cadarnhaodd Sarah y bydd sleidiau Ann John yn cael eu rhannu ag aelodau'r Grŵp, cyhyd â bod Ann yn cytuno i hynny. Diolchodd Sarah i bawb am fod yn bresennol, a chlowyd y cyfarfod ganddi.